
Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path

@llwybrarfordircymru
llwybrarfordircymru.gov.uk




# Harlech i Lanbedr (trwy Landanwg), Pen Llŷn

## Bywyd gwyllt rhyfeddol ac eglwys hudol wedi'i chuddio ynghanol y twyni tonnog.

*“Mae'r daith hon yn wledd i bobl sy'n hoff o fyd natur. Cadwch lygad am ystod eang o flodau gwyllt, pryfed, adar a madfallod ymhlith twyni Gwarchodfa Natur Genedlaethol Morfa Harlech ac mae'n bosib y gwelwch chi elyrch, adar y môr ac ambell forlo ar hyd afon ac aber Artro.”*

**RHYS GWYN ROBERTS, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU**

### Dechrau a gorffen:

Maes parcio Traeth Harlech i Lanbedr.

### Pellter:

4 milltir neu 7 km un ffordd.




Eglwys Sant Tanwg, Llandanwg




Traeth Harlech

## Ar hyd y ffordd...

Gan ddechrau o faes parcio'r traeth, cerddwch tuag at y môr trwy Warchodfa Natur Genedlaethol Morfa Harlech. Mae'n un o'r systemau twyni pwysicaf yn y wlad ac yn hafan i blanhigion ac anifeiliaid.

Yn y gwanwyn a'r haf, efallai y byddwch chi'n gweld penigau'r forwyn lliwgar neu degeirianau'r wenynen prin, ynghyd â chwtiaid torchog, ehedyddion a chlochdariaid y cerrig yn nythu, tra bod yr hydref yn dod ag amrywiaeth o ffyngau anarferol ac adar rhydiol fel y bioden fôr, pibydd y mawn a phibydd y tywod.

Mae'r daith yn parhau i'r de ar hyd Llwybr Arfordir Cymru, gan ddringo i fyny dros gledrau'r rheilffordd i lwybr troellog o'r enw'r Zig Zags (gyda golygfeydd gwych o'r bae ar y copa) cyn disgyn i mewn i Landanwg.

Ar ôl i chi ymweld â'r eglwys, mae'r llwybr yn parhau trwy gaeau ac ar hyd y clawdd llifogydd sy'n ffinio ag Afon Artro, gan gynnig golygfeydd hyfryd ar draws y fflatiau llaid a'r aber allan tuag at Fochras, un o feysydd gwersylla mwyaf Ewrop, wedi'i amgylchynu gan dwyni tywod, i'r gorllewin o Lanbedr .

Ar ôl Gorsaf Pensarn, mae'r llwybr yn dilyn y ffordd am bellter byr cyn eich arwain trwy gaeau, dros y bont droed ac ymlaen i'r maes parcio yn Llanbedr.

O'r fan hon, gallwch droi i'r chwith i ymweld â'r pentref, troi i'r dde i ddal y trên yn ôl i Harlech neu fynd yn ôl i ddechrau'r daith.

## Man Treftadaeth Gysegredig:

Yn swatio yng nghanol y twyni ychydig fetrau o'r môr, mae eglwys Sant Tanwg wedi'i gwau i'r dirwedd arfordirol. Ers ei sefydlu yn y bumed ganrif, mae wedi cael ei chloddio'n aml o'r tywod sy'n bygwth ei chladdu, tra bod y tonnau i'w clywed o du mewn yr adeilad cerrig ar hyd yn oed y diwrnod tawelaf.

Er gwaethaf ei maint bach (dim ond 57 troedfedd neu 17.4 metr wrth 23 troedfedd neu 7 metr) mae'n llawn nodweddion hynod ddiddorol sy'n adlewyrchu gwahanol gyfnodau yn ei hanes hir.

Y tu mewn fe welwch gerrig arysgrifedig sy'n dyddio'n ôl i'r bumed ganrif, carreg biler 8 troedfedd neu 0.3 metr wrth yr allor - y credir iddi wneud ei ffordd yma o Fryniau Wicklow yn Iwerddon - a chorff yr eglwys o'r drydedd ganrif ar ddeg a chroglen dderw o'r bymthegfed ganrif. Yn y fynwent gallwch hefyd weld bedd y bardd o Gymru, Sion Phillips (cyfoeswr Shakespeare) a foddodd wrth groesi o Fochras i Landanwg ym 1620.

Wedi'i adael yn wag ym 1840 pan adeiladwyd eglwys blwyf newydd yn Harlech, mae eglwys Sant Tanwg yn dal i gael ei defnyddio gyda chefnogaeth leol gref ac yn arddel egni ysbrydol pwerus.

## Gwybodaeth ddefnyddiol:

Mae yna doiledau cyhoeddus yn y maes parcio ar ddechrau'r daith ac fe welwch ddigon o dafarndai, caffis a siopau yn Harlech a Llanbedr.

Mae dau ben y daith wedi'u cysylltu â gwasanaethau trên rheolaidd sydd hefyd yn galw yn Llandanwg a Phensarn (perffaith pe bai'n well gennych fynd am dro byrrach).